



# RHAGLEN ARWEINWYR IFANC

## Portffolio Gwirfoddoli



Enw \_\_\_ Emllyn Jones \_\_\_\_\_

Gwirfoddoli gyda \_\_\_ Mounmouthshire Youth Service Bronze 2019 \_\_\_\_\_ (Enw Grwp DofE)

Enw'r Mentor : \_\_\_ Ffion Morgan \_\_\_\_\_

Cwrs \_\_\_ Glan Llyn 2019 \_\_\_\_\_



## Arweinyddiaeth Ymarferol DofE

Mae pedwar prif ddeiliant dysgu i'r modiwl hwn:

- Dangos ymrwymiad rheolaidd i'r DofE o ran galluoedd arwain ymarferol.
- Datblygu amrywiaeth o sgiliau arwain.
- Cynllunio, trefnu a chychwyn rhaglen o weithgareddau DofE.
- Deall a chymhwyso rheoliadau iechyd a diogelwch priodol wrth weithio ar weithgareddau gyda'r grŵp.

## Beth sydd angen i mi ei wneud?

- Cwblhau o leiaf 20 awr o wirfoddoli ymarferol gyda Grŵp DofE (Ni all mwy na hanner fod allan ar alltaith). Gallai hyn fod yn gynllunio, cefnogi a rhoi sesiynau ar gyfer unrhyw adran o Wobr y DofE.
- Cofnodi pob sesiwn yn y Portffolio Gwirfoddoli hwn a chael llofnod eich arweinydd neu fentor.
- Byddai'n wych pe baech yn gallu casglu tystiolaeth o'ch gwaith gwirfoddol ymarferol. Gallai hyn gynnwys ffotograffau, cynlluniau sesiynau, llythyrau, adroddiadau digwyddiad neu ddolenni i ddeunydd ar-lein perthnasol hyd yn oed fel clipiau fideo/sain. Ceir lle i restru'r dystiolaeth yng nghefn y llyfryn hwn.

*Cofiwch, nid oes atebion cywir neu anghywir yn y fan yma. Bydd yr asesydd am weld eich bod wedi neilltuo'r amser i fyfyrio ar eich profiadau fel Arweinydd Ifanc a chofnodi'r pethau yr ydych wedi'u dysgu.*

## Beth ddylwn ei anfon yn ôl?

- Mae'r Llyfryn hwn yn darparu tystiolaeth o'r ffaith eich bod wedi deall a chyflawni'r holl ddeilliannau dysgu yn y modiwl gwirfoddoli ymarferol.
- Tystiolaeth o'ch gwirfoddoli ymarferol: un ai atodwch hwn i'ch portffolio gwirfoddoli neu ei amgáu mewn ffolder ar wahân gyda'ch enw wedi'i nodi'n glir arni, os gwelwch yn dda.

Dylid anfon portffolios gwirfoddoli sydd wedi'u cwblhau i:

Gwobr Dug Caeredin  
Llawr Cyntaf, Plas Y Ffynnon  
Ffordd Cambrian, Aberhonddu  
Powys, LD3 7HP

Fe gewch neges e-bost yn cadarnhau derbyn eich portffolio ac yn eich hysbysu a oes modd dyfarnu Tystysgrif DofE mewn Arweinyddiaeth.

# 1: Ymroddiad Cyson

**Amcan:** Dangos ymroddiad cyson i'r DofE mewn rôl arweinyddol ymarferol.

**Deilliant dysgu:** Gweithredu fel Arweinydd/cynorthwydd mewn cyfarfodydd grŵp DofE rheolaidd.

Cofnodwch fanylion eich gwirfoddoli yma ac atodwch unrhyw ddogfen ychwanegol yr ydych yn meddwl y buasem yn hoffi eu gweld e.e. lluniau.

Dyddiad	Gwirfoddoli (Beth wnaethoch chi)	Oriau	Llofnod Arweinydd
31/10/19	Cwrs Hyfforddiant Arweinwyr Ifanc yng Nglan Llyn	6	
2/11/19	Sesiwn gwaith tîm ac iechyd a diogelwch ar daith	2	
10/11/19	Paratoi sgiliau mapiau a sgiliau cwmpawd	2	
20/11/19	Hyfforddiant Cymorth Cyntaf	2	
31/11/19	Sgiliau coginio a pharatoi prydau ar gyfer y daith	2	
5/12/19	Ymarfer coginio'r prydau a gynlluniwyd	2	
20/1/20	Pacio ar gyfer y daith a gosod y pebyll, cynnal gwiriadau stoc o'r cyfarpar sydd ei angen.	2	
18/2/20	Llywio nos gan ddefnyddio sgiliau cwmpawd a ddysgwyd yn y sesiwn gynt.	2	
10/3/20	Sesiwn eDofE - ychwanegu manylion o'r daith megis nodau, nodau personol, cyfesurynnau map a phwyntiau cychwyn/gorffen.	2	
10/4/20	Wedi gwirfoddoli ar eu taith, cyfarfod mewn mannau penodol, gwirio cynnydd etc.	2	
16/5/20	Glanhau cit yn iawn, a chadw popeth yn y llefydd cywir. Yn ogystal, cyfarfod i drafod sut aeth y daith a rhannu ffyrdd o wella.	2	
20/5/20	Wedi helpu i greu fideo i hyrwyddo Gwobr DofE, a oedd yn rhan o nod eu taith. Wedi rhoi tiwtorialau ar feddalwedd y fideo a helpu i ddod o hyd i sain ar gyfer y fideo.	2	
21/5/20	Wedi gwrando ar eu cyflwyniad cyn eu gwasanaeth ac wedi cynnig awgrymiadau siarad cyhoeddus	1	

# 2: Sgiliau Arwain

**Nod:** Datblygu amrywiaeth o sgiliau arwain.

**Deiliant dysgu:** Dangos sgiliau arwain ar gyfer gweithgaredd penodol.

Rhowch enghraifft pan ydych wedi dangos y sgiliau arwain canlynol mewn sesiwn.

Dyddiad	Sgil a thystiolaeth	Llofnod Arweinydd
12/12/19	<p><b>Rhowch enghraifft i ni lle'r ydych wedi <u>arwain trwy esiampl</u> mewn sesiwn neu allan ar alltaith?</b></p> <p>Yn y sesiwn ynglŷn â pheryglon ac iechyd a diogelwch, bu i mi sicrhau fy mod wastad yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn arwain drwy esiampl. Bu i mi sicrhau fy mod yn gweithio'n ddiogel a pheidio â thorri corneli. Ailadroddais hyn ar y daith, lle arweiniais y grŵp a sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel bob tro, er enghraifft bod yn ymwybodol o dda byw yn y caeau, defnyddio'r cyfarpar coginio yn ddiogel a chario cyfarpar mewn modd a oedd yn atal anafiadau.</p>	
	<p><b>Sut rydych wedi <u>cyfathrebu'n effeithiol</u> gyda'ch cyfranogwyr efydd? (tra'n trefnu sesiynau neu yn ystod hyfforddiant)</b></p> <p>Siaradais â'm grŵp a bu i ni drefnu i gyfarfod bob yn ail ddydd Llun yn llyfrgell yr ysgol am 4pm. Wrth weithio gyda fy ngrwpiau, sicrheais fy mod yn hynod amyneddgar a chymryd amser wrth egluro pethau a gweithio trwy feddalwedd megis eDofE a'r feddalwedd fideo. Fel hyn teimlais fy mod yn cyfathrebu'n glir gyda fy ngrŵp ac yn cynnig cyfle iddynt i ofyn cwestiynau i mi pryd bynnag yr oedd angen cymorth arnynt.</p>	
	<p><b>Ydych chi wedi defnyddio gemau <u>adeiladu tîm</u> yr ydych wedi'u dysgu ar y cwrs mewn gweithgareddau gyda'r cyfranogwyr? Beth oedden nhw, ac a oeddent yn llwyddiannus?</b></p> <p>Ar gyfer y sesiwn gyntaf, gwnes weithgaredd cyflwyniadol i helpu gyda sgiliau adeiladu tîm. Defnyddiais y gêm 'robotiaid' i ddangos grym cyfathrebu a sut mae cyd-weithio yn hanfodol er mwyn goresgyn her neu rwystr a llwyddo. Drwy gymryd un o'r synhwyrau oddi wrth bob aelod o'r grŵp megis golwg neu leferydd, roedd cyd-weithio yn allweddol ac roedd angen i aelodau'r tîm feddwl yn wahanol i'r arfer. Byddai'r gweithgaredd hwn yn ffordd dda o dorri'r ias i bobl nad oeddynt yn adnabod ei gilydd yn barod.</p>	
	<p><b>Gall <u>perswadio/ysgogi</u> cyfranogwyr fod yn anodd, beth oedd yr heriau mwyaf tra'n trefnu, hyfforddi a bod allan ar alltaith?</b></p> <p>A minnau wedi cwblhau'r rhaglen Arweinwyr Ifanc, roeddwn wedi dysgu llawer ynglŷn â'r gwahanol ffyrdd y gallwch gymell eich grŵp, yn arbennig os ydynt yn negyddol neu wedi blino'n gorfforol oherwydd eu taith. Un o'r ffyrdd y gwnes hyn oedd drwy gynnig cymhelliant i unigolion gwblhau her. Felly gyda fy ngrŵp efydd, os oeddynt yn cyrraedd y man penodol nesaf, byddwn yn cynnig peth melys neu fisged iddynt. Dysgais hefyd bod hiwmor yn ffordd o dda o gynnal ysbryd tîm, oherwydd pan fo'r grŵp yn chwerthin, nid ydynt yn meddwl am anawsterau'r daith.</p>	

Mae **gwaith tîm a datblygu** yn rhan bwysig o unrhyw grŵp efydd. Ydych chi wedi gweld elfennau o theori Tuckman wrth i chi ryngweithio â nhw? Os ateboch chi do, rhowch enghreifftiau

1. **Ffurio** (Dibyniaeth uchel ar yr arweinydd am gyfarwyddyd)

Wrth i mi weithio ochr yn ochr â'm grŵp efydd, roeddynt yn ei chael hi'n arbennig o anodd gyda'u sgiliau darllen mapiau. Rhoddais ychydig o berswâd ysgafn ac awgrymiadau iddynt ac fe lwyddasant i'w ddeall ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, o hynny ymlaen roeddynt yn troi ataf i am arweiniad. Yn yr un modd, wrth weithio ar y fideo lle mai fi oedd yr unigolyn mwyaf profiadol gyda meddalwedd fideo, yn aml byddai'r grŵp yn dibynnu arnaf i'w helpu nhw pan roeddynt yn naill ai'n gwneud camgymeriad neu eisiau newid rhywbeth.

2. **Dadlau/gwrthdaro** (Peth dadlau a gwrthdaro syniadau)

Roedd un o'r grwpiau efydd DofE y gweithiais gyda nhw yn eithriadol o ddadleugar gan roedd dwy bersonoliaeth yn mynd yn erbyn ei gilydd ac yn aml roedd hyn yn gwahanu'r grŵp. Er enghraifft, byddai rhai aelodau'r tîm yn mynd yn rhwystredig gydag eraill oherwydd nad oeddynt yn cadw i fyny, tra'r oedd y rhai llai heini yn cael eu siomi gan yr aelodau hyn am beidio â dangos amynedd. Gwelais hyn o'r ddwy ochr a gallwn gydymdeimlo â'r ddwy ochr i'r grŵp. Fodd bynnag, gyda lwc datryswyd y croestynnu erbyn y diwedd ac roedd yr ymdeimlad o gyflawni'r daith yn goresgyn y rhaniadau a'r dadleuon pitw hyn.

3. **Dechrau datrys** (pan fo cyfranogwyr yn dechrau datrys eu gwahaniaethau, yn gwerthfawrogi cryfderau ei gilydd ac yn parchu'ch awdurdod chi fel arweinydd)

Erbyn yr oeddwn wedi bod yn gwirfoddoli am ychydig wythnosau, bu i'r tîm ddod i fy nabod yn eithaf da a dod yn gyfforddus o'm cwmpas. Teimlais eu bod yn fy mharchu ac yn gwrando ar fy nghyngor. Felly, pan geisiais eu hatgoffa o ddarlun ehangach y daith, gwrandawant a dechrau datrys eu gwrthdaro pitw, yr oeddynt wedi sylweddoli a oedd yn ddibwys yn y cynllun pwysig i gwblhau eu Gwobr.

4. **Perfformio** (pan fo cyfranogwyr yn cyfathrebu a chydlynu'n effeithiol ac effeithlon fel grŵp)

Er bod gwrthdaro yn y grŵp yn ystod y daith, daeth yn amlwg ar ôl y daith eu bod yn llawer agosach ac wedi sefydlu cyfeillgarwch drwy'r daith. Yn ystod y dasg o gynhyrchu'r fideo i hyrwyddo Gwobr DofE, gweithiodd y grŵp yn dda gyda'i gilydd ac ymddengys eu bod wirioneddol yn mwynhau cwmni ei gilydd. Ymddengys eu bod yn myfyrio ar y daith gydag atgofion melys ac yn chwerthin am rai o'r sefyllfaoedd a gododd yn ystod y daith.

Gall ***rheoli grŵp*** fod yn anodd, rhowch enghraifft pan oedd rhaid ichi ddatrys gwrthdaro.

Yn un cam o'r daith, roedd y grŵp wedi cynhyrfu'n lân gan eu bod yn meddwl nad oeddynt yn mynd i gyrraedd eu man penodol olaf o fewn yr amser penodedig. Roedd yr aelodau'n dadlau yn sgil un aelod nad oedd yn gallu cadw i fyny. Ar y cam hwn, roedd gofyn i mi ymyrryd, gan fod yr aelod hwn o'r grŵp yn cael amser caled yn annheg oherwydd rhwystredigaeth y tîm. Gan nad oeddwn eisiau i un aelod gael y bai i gyd am yr oedi yn eu taith, eglurais i'r grŵp mai'r rhan bwysicaf o'r her yw'r gallu i weithio fel tîm a'u hatgoffa nhw o'r darlun ehangach a'r ffaith eu bod wedi cyflawni pethau mawr er mwyn cyrraedd y daith ei hun.



# 3: Cynllunio

**Nod:** Cynllunio, trefnu a dechrau rhaglen o weithgareddau DofE.

**Deiliant dysgu:** Cynllunio, trefnu a chychwyn rhaglen gweithgaredd DofE.

Efallai na chewch chi'r cyfle i gynllunio pob sesiwn, ond hoffem weld o leiaf un enghraifft o sesiwn yr ydych wedi ei chynllunio, ei threfnu a'i chychwyn. Gallwch atodi eich nodiadau cynllunio ac adolygu'r sesiwn isod:

Testun	Pacio ar gyfer taith a chynnal gwiriadau stoc	Cefndir y Grŵp	Nifer y Cyfranogwyr Merched: 8 Bechgyn: 6
Dyddiad - Amser	02/02/20 @ 4pm		
Canolbwynt y Sesiwn	Cynghori cyfranogwyr ynglŷn â'r hyn a ddylid ei bacio a sut i bacio bag yn effeithiol a diogel fel y gellir cyrraedd yr eitemau pwysicaf yn rhwydd a bod y pwysau wedi'i ddsbarthu mewn modd sydd leiaf tebygol o achosi poen neu arwain at anaf.  Yn ogystal, roeddem eisiau cadw cofnod gwir o'r cit yr oedd gennym ar gael er mwyn gwneud pethau mor drefnus â phosibl.	<b>Nodau Dysgu</b>	
		M2 - Deall model ar gyfer cynllunio gweithgareddau neu ddigwyddiadau.  M5 – Deall y broses cadw cofnodion sy'n briodol i gynnal grŵp DofE.  P3 – Cynllunio, trefnu a chychwyn rhaglen o weithgarwch DofE.  P4 – Deall a chymhwyso rheoliadau iechyd a diogelwch priodol wrth weithio ar weithgareddau yn y grŵp.	
Gwybodaeth oedd gan y cyfranogwyr ymlaen llaw	Roeddynt eisoes wedi cael eu rhestr cit ac mae'n bosibl bod gan rai brofiad o bacio bag os oeddynt wedi gwneud gweithgareddau awyr agored y tu allan i'r ysgol.	<b>Meini prawf Llwyddiant</b>	
		Byddai gan y cyfranogwyr ddealltwriaeth drylwyr o sut i bacio bag ac yn gallu gwneud hynny'n sydyn ac effeithiol. Yn ogystal, byddem yn gwybod yn union faint o stoc sydd gennym ar gael.	

<b>Braslun o'r Sesiwn: Pa weithgareddau yr ydych yn bwriadu eu gwneud gyda'r grŵp?</b>	
Cyflwyniad	Gair i gall ynglŷn â phacio bag, gofynnwch i'r grŵp am eu barn. Defnyddiwch dri bag wedi'u pacio ymlaen llaw a gofyn i bob grŵp roi un ar eu cefn a thrafod pa un yw'r mwyaf cyfforddus a'r mwyaf rhwydd i'w gario, yna gofynnais i'r grŵp pam y credant hyn. Yna, datgelais yr ateb ynglŷn â pha fag sydd wedi'i bacio'n briodol.
Prif Gorff	Dechreuwch drwy gynnal gwiriad o'r stoc a gofynnwch i bob grŵp benderfynu pa eitemau a faint o bob eitem y bydd eu hangen arnynt. Gofynnwch i'r grŵp osod hyn ar y llawr ac yna dechreuwch feddwl am y ffordd orau i bacio'r bag. Bydd angen iddynt grwpio'r eitemau a phenderfynu sut i wneud hyn eu hunain, ond dylid ystyried yn ofalus pwysau bob eitem a pha mor aml y bydd angen iddynt ei defnyddio. Yna byddaf yn mynd o gwmpas ac yn asesu a yw'r grwpiau yn gywir o ran sut roeddynt wedi rhannu'r eitemau a gofyn rhai cwestiynau iddynt ynglŷn â'u penderfyniadau. Yna byddaf yn mynd ymlaen i bacio bag o flaen bawb ac egluro pam fod bob eitem wedi'i phacio yn y drefn benodol honno. Byddaf yn nodi un agwedd gadarnhaol yn null bob grŵp ac yn trafod hynny yn fy nghyflwyniad. Unwaith y byddaf wedi gwneud hyn, byddwn yn gofyn i bob grŵp bacio bag yn yr un modd ag y gwnes innau.
Cyfarfod Llawn Cau	I orffen, byddaf yn gofyn i bob aelod o'r tîm fodelu bag drwy gerdded ar frigdrawst ffug, er mwyn i ni gael gweld y ffordd fwyaf diogel o gerdded gyda bag. Yn y cam hwn, byddwn yn dangos iddynt sut i addasu eu strapiau petaent angen gwneud hynny ac annog safiad da, gan gywiro unrhyw arferion drwg.

Adnoddau (Beth fyddwch chi ei angen?)	Sach deithio gyda chynnwys amrywiol yn cynnwys pecynnau cymorth cyntaf, pebyll, matiau rholio, sach gysgu, rhai cynhwysyddion bwyd, poteli dŵr, dillad megis siwmperi a dillad gwrth-ddŵr.
--	--

Asesu Risg		
Beth yw'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â'ch sesiwn?	Nid oes llawer o risgiau ynghlwm â'r gweithgaredd hwn, ond bu i mi sicrhau bod y llawr yn glir fel nad oedd y timau yn baglu dros gyfarpar, yn enwedig wrth fodelu'r bagiau. Yn ogystal, bu i mi sicrhau bod y timau yn cario eu bag yn gywir er mwyn lleihau'r risg o anaf.	
Ticiwch y math o asesiad risg priodol yr ydych wedi ei wneud.	<input checked="" type="checkbox"/> Generig <input type="checkbox"/> Deinamig <input type="checkbox"/> Penodol	Llofnod yr Arweinydd/Mentor i sicrhau bod gwiriadau wedi cael eu gwneud.

Gwerthuso	
<u>Enwch 3 pheth a fu'n llwyddiannus</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Drwy ofyn i'r grŵp wneud gweithgareddau penodol i'w hunain, er enghraifft gofyn iddynt ddewis y sach deithio a oedd wedi'i phacio'n gywir yn eu barn nhw, neu drwy gategoreiddio'r eitemau yn ôl blaenoriaeth yn eu barn nhw, gallant ddefnyddio sgiliau adeiladu tîm a fyddai'n ddefnyddiol i'r daith, a dysgu o'u camgymeriadau yn ogystal â'r hyn a wnaethant yn gywir.</li> <li>• Yna, drwy ofyn i'r grŵp ailbacio'r bag eu hunain, gallant ddefnyddio'r wybodaeth yr oeddwn wedi'i haddysgu a phrofi eu hunain o ran faint yr oeddynt wedi'i ddysgu o'm cyflwyniad.</li> <li>• Roedd cerdded ar hyd y brigdrawst yn ffordd ysgafn o orffen y sesiwn, ac fe gafodd y cyfranogwyr hwyl wrth wneud hynny.</li> </ul>	<u>Rhestrwch 3 pheth y byddech yn eu newid a nodwch pam</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tra'r oedd y grwpiau yn pacio'u bagiau, nid oedd llawer y gallwn ei wneud gan fy mod yn ceisio peidio â rhoi gormod o arweiniad iddynt, felly'r tro nesaf byddwn yn dod o hyd i rywbeth i'w wneud yn y cyfamser, megis gwirio eu tystiolaeth ar eDofE neu ddechrau ar y gwaith o gynnal gwiriad stoc.</li> <li>• Nid oedd y bagiau'n adlewyrchu'n union sut fyddai bag DofE yn edrych gan nad oeddwn wedi dod â rhai eitemau, megis y swm cywir o fwyd y byddai angen arnynt ar daith, neu'r hynny o ddillad y byddant yn dod efo nhw.</li> <li>• Byddwn yn dod â cherddoriaeth i wneud y gweithgaredd ar y brigdrawst.</li> </ul>

A wnaethoch chi unrhyw newidiadau munud olaf i ddiwallu rhai anghenion gwahanol? Roedd aelodau yn rhai grwpiau yn ei chael hi'n anodd cario'r un pwysau ag eraill, felly gwnaethom ail ddsbarthu'r pwysau fel bod pawb yn teimlo'n gyfforddus gyda'r pwysau yr oeddynt yn ei gario. Er enghraifft, roedd un bachgen yn ei chael hi'n anodd gyda'r pwysau yr oedd yn ei gario, felly gwnaethom dynnu polion ei babell a'i begiau a'u dosbarthu nhw ym magiau pobl eraill.



# Taflen Adolygu Derfynol yr Arweinydd Ifanc

**Arweinydd Ifanc:** Ar ôl i chi orffen, cymerwch ychydig o amser i fyfyrto. Ysgrifennwch adroddiad byr isod ar ba mor dda rydych yn credu y gwnaethoch chi, beth oedd fwyaf gwerthfawr a mwyaf anodd a sut rydych yn meddwl y bydd yn eich helpu gyda'ch llwybr datblygu arweinyddiaeth yn y dyfodol?

## Adolygiad personol yr Arweinydd Ifanc

Credaf ers i mi wneud fy nghwrs Arweinwyr Ifanc ym mis Hydref bod fy sgiliau arwain wedi datblygu'n enfawr. Cyn gwneud y cwrs, ni allwn ddychmygu gallu cyflwyno sesiwn hyfforddi ar gyfer rhywbeth fel pacio cyfarpar i'r daith, gan er y byddai gennyf y wybodaeth, ni fyddwn wedi gallu cyflwyno'r gweithgaredd yn dda i'r bobl ifanc gael deall. Nid wyf yn ofn gwirfoddoli am bethau bellach, hyd yn oed os nad ydynt yn bethau rwy'n gyfforddus yn gwneud yn naturiol. Y gweithgareddau a gefais yr anoddaf oedd y rhai mwyaf gwerth chweil ac a'm helpodd i ddatblygu fy ngalluoedd arwain y mwyaf. O'r profiad hwn, rwyf wirioneddol wedi ystyried dechrau gyrfa addysgu, gan fy mod wedi mwynhau rhannu fy ngwybodaeth gyda'r cyfranogwyr yn fawr ac yn teimlo eu bod nhw'n gwerthfawrogi fy mod wedi treulio fy amser hamdden yn eu helpu.

Llofnod yr Arweinydd ifanc:

Dyddiad:10/6/20

## Cynllun gweithredu

Llongyfarchiadau ar gwblhau'r modiwl hwn. Bellach rydych wedi dechrau gweld beth yw eich cryfderau o ran arwain a pha feysydd y mae arnoch angen eu datblygu ymhellach. Gyda'ch Mentor, rhestrwch isod gamau nesaf eich datblygiad, gyda graddfa amser os yn bosibl.

Gan fy mod yn aros yn fy chweched dosbarth am y flwyddyn nesaf, hoffwn barhau i helpu'r grŵp nesaf o gyfranogwyr Efydd gyda'u DofE. Er bod pwysau mawr gyda Lefelau A a chael lle mewn prifysgol, gallaf weld bod hon yn ffordd fuddiol o dreulio fy amser a byddaf yn gwneud rhywbeth y gallaf ei ychwanegu at fy nghais prifysgol neu CV, ac yn ogystal â hynny, yn rhywbeth y gallaf ei drafod mewn cyfweiliadau a fydd yn fy ngwneud yn unigryw i ymgeiswyr eraill. Yn ogystal, rwy'n credu y bydd hyn yn helpu fy arweinydd DofE gan ei fod yn bâr ychwanegol o ddwylo i helpu gyda sesiynau hyfforddi a sesiynau grŵp. Credaf os gallaf ennill y cymwysterau i fod yn oruchwyliwr neu aseswr DofE, byddai hynny'n sgîl da er mwyn mynd i yrfa addysgu.

### Hyfforddiant sydd ar gael

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, ticiwch y bocs priodol os gwelwch yn dda

- Arolygwyr DofE
- Aseswyr DofE
- Arweinydd Tir Isel
- Sgiliau Arweinwyr Mynydd
- Sgiliau Mynydda
- Cymorth Cyntaf

Llofnod yr  
Arweinydd Ifanc:

Llofnod y Mentor:  
Dyddiad:10/6/20

# Taflen Adolygu Derfynol y Mentor/Arweinydd

Gofynnwch i'ch arweinydd a/neu fentor ysgrifennu adolygiad byr am eich gwaith gwirfoddol ymarferol ac am yr hyn yr ydych wedi ei wneud. Os mai eich mentor yw eich arweinydd DofE hefyd, yna llenwch un bocs isod.

## Adolygiad yr Arweinydd

Mae Emlyn wedi bod yn gaffaeliad gwirioneddol i'r tîm sy'n cynnal y DofE yn Arberth. Rwyf wedi'i wyllo'n datblygu wrth iddo ddod yn fwyfwy hyderus wrth weithio gyda'r cyfranogwyr ac arwain gweithgareddau. Mae'n hynod amyneddgar ac yn ymroi ei amser yn gyfartal rhwng yr holl gyfranogwyr. Yn ogystal, mae wedi bod yn ysbrydoliaeth go iawn ac yn esiampl dda i'r cyfranogwyr ac wedi datblygu i orffen ei Wobr Aur yn ddiweddar.

Llofnod Arweinydd/Mentor:

Dyddiad: 12/6/20

## Adolygiad y Mentor

Mae Emlyn wedi bod yn bâr arall o ddwylo gwych i'w gael yn ystod y grŵp hwn o gyfranogwyr y Wobr Efydd, a chredaf y byddant wedi'i chael hi'n anodd heb ei gymorth a'i arweiniad trwy gydol y daith. Rwy'n credu bod y grŵp wirioneddol wedi cael budd o'i sesiwn ynglŷn â sut i bacio sach deithio, gan fod hyn wedi'u hatal nhw rhag gwneud camgymeriadau yn ystod y daith. Wrth i amser fynd heibio, mae Emlyn wedi gweithio'n gynyddol annibynnol oddi wrthym fel staff ac wedi bod yn cyflwyno gweithgareddau ar ei ben ei hun, sy'n rhoi'r cyfle i ni gael dal i fyny gyda thasgau eraill megis gweithio ar eDofE neu wirio adrannau. Rwy'n hynod falch y bydd Emlyn yn aros yn yr ardal i fynd i'r chweched dosbarth a bydd yn parhau i'n helpu pan fyddwn ei angen. Rwy'n falch iawn o Emlyn, sydd wedi tyfu'n arweinydd ifanc hyderus a galluog.



## Adnoddau

Gallwch ddefnyddio'r tudalennau hyn i gofnodi'r holl lefydd y gallwch ddod o hyd i wybodaeth sy'n berthnasol i'r modiwl hwn. Gallai'r rhain gynnwys cysylltiadau personol, llyfrau, gwefannau, cyhoeddiadau ac ati.



**Fy nghwrs hyfforddiant arweinwyr ifanc yng Nglan Llyn**



**Hyfforddiant cymorth cyntaf**



**Sgiliau Ilywio**



**Cyfranogwyr Efydd yn cychwyn ar eu taith**

# Llongyfarchiadau ar orffen eich Portffolio Gwirfoddoli

## Crynowch eich profiad mewn brawddeg

Mae'r rhaglen arweinwyr ifanc wedi fy annog i gyflawni pethau y credais a oedd y tu hwnt i'm galluoedd, a gallaf bellach alw fy hun yn arweinydd hyderus.